# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025-26

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***

***This document is available in English***

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

CARDIFF CAERDYDD

## Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o hunaniaeth Caerdydd, ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w weledigaeth o brifddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru. Rydym am i'r Gymraeg gael ei glywed, ei weld, a'i ddefnyddio'n naturiol bob dydd. Caerdydd eisoes sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a'r dwysedd uchaf o siaradwyr fesul milltir sgwâr. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a darparu cyfleoedd i'r iaith gael ei defnyddio.

**"Rydym am i'r Gymraeg gael ei glywed, ei weld, a'i ddefnyddio yn naturiol bob dydd."**

Mae canlyniadau diweddar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod y gallu i siarad Cymraeg yng Nghymru ar ei gryfaf ymhlith plant a phobl ifanc, gyda bron i hanner y rhai 3–15 oed a thros draean o'r rhai 16–24 oed yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Er nad yw'r Arolwg ar hyn o bryd yn darparu data ar lefel awdurdod lleol am siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran, mae'r patrwm hwn yn gyson â chanlyniadau Cyfrifiad 2021, a nododd mai'r grwpiau hyn oedd â'r nifer uchaf a'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

Yn ehangach, mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn adlewyrchu twf parhaus y Gymraeg yng Nghaerdydd, gan ddangos bod 96,800 o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cynrychioli 26.4% o boblogaeth y ddinas. Dyma'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Os bydd y twf ymhlith trigolion iau yn parhau ac yn cael ei gynnal, mae'n debygol na fydd y cynnydd hwn yn unig yn cael ei gynnal, ond y bydd hefyd yn cyflymu dros y cyfnod sydd i ddod

### Safonau'r Gymraeg

Mabwysiadodd Cyngor Caerdydd Safonau'r Gymraeg yn 2016. Nid set o reolau yn unig yw'r safonau hyn - maen nhw'n helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o bopeth a wnawn. P'un a yw'n ddatblygu polisïau newydd, hyfforddi staff, recriwtio aelodau newydd o'r tîm, neu ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy, yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio.

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn arwain y gwaith hwn ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid ledled y ddinas. Mae Tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol wrth ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau, tra bod ein Tîm Cyfieithu yn darparu dogfennau o ansawdd uchel a chyfieithu ar y pryd fel y gall dinasyddion gael mynediad yn hyderus at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis.

## Cymraeg 2050




Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo'n llwyr i weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd o'r Gymraeg. Disgrifir yr ymrwymiad hwn yn strategaeth Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor ac fe'i cefnogir gan ei gynllun gweithredu cynhwysfawr.

Themâu Cymraeg 2050 yw:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu

Mae gwaith Cyngor Caerdydd ar draws y themâu hyn yn adlewyrchu ei ymrwymiad ehangach i hyrwyddo a normaleiddio'r Gymraeg er budd pob dinesydd. Yn unol â hynny, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg ac yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cefnogi a hyrwyddo themâu Cymraeg 2050 drwy ei bolisïau, ei wasanaethau a'i bartneriaethau.

## Deilliannau Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg

Mae dull Comisiynydd y Gymraeg o ran gwaith rheoleiddio yn rhagweithiol ac yn seiliedig ar gydweithrediad. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan gyfres o ddeilliannau rheoleiddio sydd wedi'u diffinio'n glir. Diben y deilliannau hyn yw:

- cefnogi'r uchelgais genedlaethol i dyfu'r boblogaeth sy’n siarad Cymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith;
- darparu mesurau llwyddiant clir a thryloyw;
- canolbwyntio ymdrechion rheoleiddio ar ddeilliannau ystyrlon i siaradwyr Cymraeg; a
- chefnogi sefydliadau i gyflawni deilliannau cadarnhaol ac ymarferol i siaradwyr Cymraeg.

Mae Cyngor Caerdydd yn cymeradwyo'n llawn ymrwymiad y Comisiynydd i gydweithio â sefydliadau i wella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau Cymraeg ac ehangu cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith.  Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i strwythuro i gyd-fynd â'r deilliannau rheoleiddio a dangos gweithgareddau'r Cyngor wrth gefnogi a hyrwyddo pob un ohonynt.

| Capasiti | Ymwybyddiaeth | Polisi | Gweithle | Hyrwyddo | Llywodraethiant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Deilliant 4** | **Deilliant 5** | **Deilliant 6** |
| Mae’r capasiti gan sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel bob amser. | Mae defnyddwyr y Gymraeg **yn deall ac yn ymwybodol** o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt. | Mae sefydliadau'n rhoi sylw dyledus i effeithiau posibl eu **penderfyniadau polisi** ar y Gymraeg. | Mae sefydliadau'n cynyddu'r defnydd o'r **Gymraeg yn eu gweithleoedd**, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd. | Mae sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg fel bod pobl yn gallu **defnyddio'r iaith yn naturiol** yn eu bywydau bob dydd. | Mae sefydliadau'n gwarchod ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr y Gymraeg drwy fod â **llywodraethiant a threfn gwynion** effeithiol. |

# Deilliant 1: Capasiti

## Mae’r capasiti gan sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel bob amser.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gryfhau capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.  Cyflawnir hyn drwy waith recriwtio staff Cymraeg wedi'i dargedu, darparu hyfforddiant Cymraeg, a nodi swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

Cyflwynodd strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ddau darged allweddol i gefnogi datblygiad y gweithle:

- **20%** o staff y Cyngor i feddu ar sgiliau Cymraeg; a
- **50%** o staff y Cyngor i fod wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg.

Cofnododd **21.33%** o weithlu'r Cyngor bod sgiliau Cymraeg ganddynt yn 2025-26. Mae hyn yn adlewyrchu'r twf parhaus a gyflawnwyd ers 2021-22 (**14.5%)** ac yn rhagori ar y targed o **20%** a nodir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

Cwblhaodd **1,103** o staff y cyngor gyrsiau Cymraeg yn 2025-26. Mae hyn yn dod â chyfanswm nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi ers 2021-2022 i **5,878** sy’n cynrychioli **77%** o'r gweithlu ac yn sylweddol fwy na’r targed o **50%** a nodir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022–27.

### Sgiliau Cymraeg Staff

Mae **1,620** o staff y Cyngor wedi cofnodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg ar system AD ddigidol y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o **9.5%** ers 2024-25 (**1,480**) ac yn cynrychioli **27.6%** o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar system AD ddigidol y Cyngor a **21.33%** o'r gweithlu Corfforaethol.

Mae dadansoddiad llawn fesul Cyfarwyddiaeth Cyngor i’w weld isod:

| ***Gwasanaeth*** | ***Lefel Mynediad*** | ***Sylfaen*** | ***Canolradd*** | ***Uwch*** | ***Hyfedr*** | ***Cyfanswm*** | ***Canran staff y gwasanaeth*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU* | 302 | 86 | 56 | 32 | 56 | 532 | 18.14% |
| *GWASANAETHAU PLANT* | 203 | 46 | 19 | 23 | 31 | 322 | 35.39% |
| *DATBLYGU ECONOMAIDD* | 86 | 19 | 19 | 12 | 18 | 154 | 12.25% |
| *ADDYSG A DYSGU GYDOL OES (Ac Eithrio Ysgolion)* | 103 | 28 | 28 | 9 | 43 | 211 | 19.63% |
| *LLYWODRAETHIANT A GWASANAETHAU CYFREITHIOL* | 21 | 4 | 2 | 5 | 9 | 41 | 37.47% |
| *PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU* | 16 | 6 | 3 | 3 | 23 | 51 | 44.61% |
| *CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD* | 57 | 16 | 10 | 5 | 8 | 96 | 15.72% |
| *ADNODDAU* | 110 | 32 | 17 | 22 | 32 | 213 | 24.35% |
| | | | | | | | *Canran y staff Corfforaethol* |
| ***Cyfanswm*** | **898** | **237** | **154** | **111** | **220** | **1620** | **21.33%** |

## Recriwtio

Hysbysebwyd **1,247** o swyddi gan Gyngor Caerdydd yn 2025-26.

- Cafodd **35** eu hysbysebu fel rhai ‘Cymraeg hanfodol’
- Cafodd **560** eu hysbysebu fel rhai ‘Cymraeg dymunol’
- Cafodd **652** eu hysbysebu heb unrhyw ofynion o ran y Gymraeg.

Sylwer bod y ffigurau hyn **yn ymwneud yn unig â swyddi nad ydynt yn swyddi ysgol.**

## Dysgu Cymraeg

Yn 2025-26, derbyniodd **1,103** o staff y Cyngor hyfforddiant Cymraeg.

- Cwblhaodd **779** o staff y Cyngor yr e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1
- Mynychodd **238** o staff y Cyngor gyrsiau hyfforddi Cymraeg dan arweiniad tiwtor. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu a chyrsiau byr (**103**), cyrsiau dwys 120 awr (**83**), cyrsiau 60 awr (**26**) a chyrsiau i ddechreuwyr a chanolradd ar gyfer staff ysgolion (**26)**
- Cwblhaodd **24** o staff y Cyngor y cwrs ‘Iaith Gwaith’ ar-lein 60 awr
- Cwblhaodd **36** o staff y Cyngor y cwrs ‘Iaith Gwaith’ ar-lein 10 awr
- Cwblhaodd **26** o staff ysgolion gyrsiau 10 wythnos i ddechreuwyr a chanolradd
- Cwblhaodd **739** o staff y Cyngor yr e-fodiwl ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Yn ogystal â hyfforddiant Cymraeg, mae Cyngor Caerdydd yn darparu'r canlynol yn y Gymraeg fel cyrsiau e-ddysgu:

- Sefydlu Corfforaethol
- Hawliau Plant
- Diogelu Corfforaethol
- Hanfodion Diogelu Data
- Ymwybyddiaeth o Dwyll
- Sut i Ddarparu Gwasanaeth Cwsmeriaid Gwych
- Safon Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu

- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## **Deilliant 2:** Ymwybyddiaeth

**Mae defnyddwyr Cymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.**

### Cyfryngau cymdeithasol

| Platfform | Dilynwyr | | Argraffiadau |
|---|---|---|---|
| Pob un | ↑ *(i fyny 5.7%)* | **5,224** Cyfanswm Dilynwyr | **432,000** Cyfanswm argraffiadau |
| Facebook | ↑ *(i fyny 9%)* | 1,452 | 209,344 |
| X | ↓ *(i lawr 2%)* | 2,989 | 90,320 |
| Instagram | ↑ *(i fyny 40%)* | 783 | 133,025 |

Mae'r Cyngor yn cynnal sawl cyfrif cyfryngau cymdeithasol Cymraeg pwrpasol.  Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Saesneg y Cyngor.

Gyda'i gilydd mae ganddynt gyfanswm cyfunol o **5,224** o ddilynwyr, cynnydd o **5.7%** oddi ar 2024-25, mwy na dyblu'r cynnydd canrannol o **2.4%** a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae cynnwys a gyhoeddir ar y cyfrifon hyn yn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r cyngor i'r cyhoedd.  Yn 2025-26 cyhoeddwyd ychydig dros **4,900** o bostiadau ar y sianeli hyn, gan gynhyrchu mwy na **432,000** o argraffiadau (amlder gweld).

Mae mynediad at wasanaethau Cymraeg yn cael ei hyrwyddo ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg y Cyngor – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae hyn wedi cynnwys hyrwyddo:

- cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar ddyfodol addysg Gymraeg, Cyllideb y ddinas ar gyfer 2025-26 a'r arolwg blynyddol Holi Caerdydd;
- yr opsiynau sydd ar gael i rieni ddewis addysg Gymraeg;
- digwyddiadau 'Amser Rhigwm Mawr Cymru' mewn Hybiau a Llyfrgelloedd;
- gwefan Ein Dinas, Ein Hiaith; ac
- ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg.

## Gwasanaethau Digidol

| | | |
|---|---|---|
| **1,197** | **1,460** | **17,853** |
| **o alwadau** | **o negeseuon Cymraeg** | **o geisiadau Cymraeg** |
| wedi'u hateb gan linell Gymraeg C2C | i Dîm Cyfryngau Cymdeithasol C2C | wedi'u derbyn drwy Ap Cyngor Caerdydd |
| **6,921** | **27,236** | **304** |

**o ddefnyddwyr**

wedi cyrchu tudalennau Cymraeg ar wefan Cyngor Caerdydd

**cyfanswm edrychiadau tudalennau**

ar Dudalennau Cymraeg gwefan Cyngor Caerdydd

**o ffurflenni gwe Cymraeg**

Wedi eu cwblhau a’u cyflwyno drwy wefan Cyngor Caerdydd

Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau am wybodaeth y mae Cyngor Caerdydd yn eu derbyn yn cael eu cyflwyno drwy ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ei wefan a'r gwasanaeth Cysylltu â Chaerdydd (C2C). Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig opsiynau Cymraeg a Saesneg hygyrch i gefnogi holl ddinasyddion Caerdydd i gyfathrebu â'r Cyngor yn eu dewis iaith.

Yn 2025-26

- Gwnaed **1,197** o alwadau i linell Gymraeg C2C, ac atebwyd pob un gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.
- Ymdriniodd tîm cyfryngau cymdeithasol C2C â **1,460** o negeseuon yn Gymraeg, gyda phob un yn derbyn ymateb llawn yn Gymraeg.
- Prosesodd Ap Cyngor Caerdydd **17,853** o geisiadau am wybodaeth a gafodd eu cyflwyno yn Gymraeg.
- Cyrchodd **6,921** o ddefnyddwyr dudalennau Cymraeg ar wefan y Cyngor, gan gynhyrchu **27,236** o ymweliadau tudalen.
- Cyflwynwyd **304** o ffurflenni gwe yn gofyn am wybodaeth yn Gymraeg, ac ymatebwyd iddynt yn Gymraeg.

# **Deilliant 3:** Polisi

## Mae sefydliadau'n rhoi sylw dyledus i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

### Cynllun Datblygu Lleol

Cyflwynodd Cyngor Caerdydd ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) terfynol i Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026. Fel rhan o'r broses hon, cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o effaith y CDLl ar y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys datblygu Polisi Strategol a Pholisi Manwl yn ymwneud â'r Gymraeg, wedi'u hategu gan bapur cefndirol technegol manwl.

Mae'r CDLl yn dynodi Caerdydd yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol, gan nodi cam sylweddol ymlaen o ran cryfhau gwelededd a statws y Gymraeg a chyflwyno gofynion i sicrhau ei bod yn cael sylw cydwybodol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â defnydd tir, tai a datblygu cyflogaeth ledled y ddinas.

Mae'r polisi cynllunio ar y Gymraeg, a gefnogir gan Ganllawiau Cynllunio Atodol, yn cryfhau gwelededd a statws y Gymraeg yn y brifddinas. Bydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, gyda ffocws penodol ar gryfhau seilwaith ieithyddol a chynyddu defnydd bob dydd o'r Gymraeg, gan hefyd gefnogi Amcan Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Y ffocws cychwynnol fydd ar wreiddio ystyriaethau'r Gymraeg yn y system gynllunio, o fewn y Cyngor ac ymhlith datblygwyr a chymunedau. Bydd effeithiau posibl ar y Gymraeg yn cael eu nodi a'u hystyried yn gynnar mewn ceisiadau cynllunio mawr, gan ddarparu sail gryfach ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog a datblygu mesurau lliniaru neu rwymedigaethau cynllunio lle bo hynny'n briodol. Bydd y dull hwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ac ar draws y ddinas, ac yn cefnogi ei thwf hirdymor yn y brifddinas.

Mae ail adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026, yn darparu cyd-destun gwerthfawr pellach i'r CDLl ac yn canolbwyntio ar gymunedau sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynnal gwrandawiadau ar CDLl Caerdydd ym 2026-27, gan gynnwys sesiwn bwrpasol ar y Gymraeg. Yn dilyn y gwrandawiadau hyn, ac unrhyw ymgynghoriad dilynol, bydd yr Arolygiaeth yn cyhoeddi ei hadroddiad terfynol. Mae'r Cyngor yn rhagweld mabwysiadu'r CDLl newydd yn ffurfiol yn gynnar yn 2027.

Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn datblygu Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar y Gymraeg. Bydd y canllaw hwn yn cefnogi datblygwyr i ystyried y Gymraeg o gamau cynharaf y broses gynllunio. Bydd yn amlinellu sut y dylai ymgeiswyr asesu cyd-destun ieithyddol ardaloedd datblygu a nodi mesurau priodol i hyrwyddo'r Gymraeg neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Mae'r CCA arfaethedig hwn yn adeiladu ar fentrau diweddar, gan gynnwys Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor, sydd â'r nod o gryfhau presenoldeb y Gymraeg a chyfrannu at weledigaeth Caerdydd o fod yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog.

Yn 2025-26, cyfieithwyd dros 200,000 o eiriau i gefnogi datblygiad y CDLl newydd.

### Asesiadau Effaith ar y Gymraeg

Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi ei staff i sicrhau bod ystyriaeth gydwybodol yn cael ei rhoi i'r effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu neu ddiwygio polisïau.

Mae adran bwrpasol ar y Gymraeg wedi'i chynnwys yn ffurflen Asesiad Effaith Sengl y Cyngor, ac mae tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog yn darparu hyfforddiant ar y gofynion i gefnogi asesu effeithiau ar y Gymraeg.

Adolygwyd **22** asesiad effaith ar gynigion arbedion i gefnogi ymgynghoriad Cyngor Caerdydd ar gyllideb 2026/27. Sicrhaodd hyn fod unrhyw effeithiau andwyol posibl ar y Gymraeg, a'r camau i'w lliniaru, wedi'u nodi'n glir.

Adolygwyd **65** o bolisïau a strategaethau gan Caerdydd Ddwyieithog drwy gyfrwng y Grŵp Blaengynllunio Asesiadau Effaith.

Mae'r Grŵp Blaengynllunio Asesiadau Effaith yn cyfarfod yn fisol i adolygu blaengynlluniau ar gyfer Pwyllgorau Craffu a Chabinet y Cyngor. Mae hyn yn darparu gwell goruchwyliaeth o ofynion asesu effaith sydd ar ddod ac yn caniatáu amser ychwanegol i adolygu polisïau, dogfennau ategol a deunyddiau ymgynghori. O ganlyniad, gall y Grŵp gyflwyno asesiadau effaith a chwestiynau ymgynghori mwy cadarn ac ar sail gwybodaeth. Mae'r gwaith hwn yn cryfhau gallu'r sefydliad i roi ystyriaeth gydwybodol i'r effaith bosibl y bydd cynigion yn ei chael ar y Gymraeg ac yn cefnogi cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg.

### Blwch E-bost Polisi Pwrpasol

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnal blwch negeseuon e-bost pwrpasol ar gyfer materion polisi'r Gymraeg:

Mae'r blwch negeseuon e-bost hwn, a'r cymorth polisi a ddarperir gan Gaerdydd Ddwyieithog, yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd gyda staff Cyngor Caerdydd:

MaterionPolisiIaithGymraeg@caerdydd.gov.uk

# **Deilliant 4:** Gweithle

**Mae sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd, gan alluogi staff i weithio'n Gymraeg o ddydd i ddydd.**

## Polisi Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dwyieithog

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a chreu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae creu a chynnal gofodau Cymraeg yn elfen hanfodol o hyn ac yn sicrhau bod yr iaith yn rhan weladwy o ddiwylliant y Cyngor.

Yn 2025-26, cytunwyd i adolygu polisi Caerdydd Ddwyieithog, Cyngor Dwyieithog y cyngor i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weithleoedd. Roedd yr adolygiad yn briodol er mwyn hwyluso ymgorffori'r gwaith a wnaed gan Gyngor Caerdydd i ddiweddaru data sgiliau Gymraeg staff y Cyngor a mabwysiadu fframwaith hyfedredd iaith CEFR.

Mae'r mesurau allweddol a gyflwynwyd yn yr adolygiad hwn yn cynnwys:

- Proses recriwtio ddwyieithog gadarn i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.
- Camau i gefnogi ymrwymiad Cyngor Caerdydd i lofnodi Siarter Twf TUC Cymru.
- cynnwys sgiliau Cymraeg a/neu iaith gymunedol fel gofyniad dymunol ar gyfer pob swydd wag a hysbysebir.
- Darparu elfennau Cymraeg yn ystod y broses sefydlu staff.
- Dynodi cysylltiadau Cymraeg i gefnogi staff newydd ac annog cyfathrebu yn Gymraeg lle bo hynny'n ymarferol.
- Canllawiau newydd ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth a deallusrwydd artiffisial i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r polisi diwygiedig yn cryfhau ymrwymiadau o fewn y Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg drwy gyflwyno Continwwm Capasiti Iaith Gymraeg, sy'n galluogi asesu a datblygu gallu pob tîm i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r dull hwn yn cefnogi ymyriadau wedi'u targedu, gan gynnwys uwchsgilio staff a dynodi rolau Cymraeg hanfodol.

## CEFR

Mae'r polisi Caerdydd Ddwyieithog, Cyngor Dwyieithog diwygiedig yn darparu gofynion manwl i gefnogi trosglwyddiad Cyngor Caerdydd draw i'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) i ddisgrifio hyfedredd yn y Gymraeg. Mae'r newid hwn yn un o'r argymhellion

a wnaed yn Neddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Bydd hyn yn safoni lefelau sgiliau iaith, yn cefnogi recriwtio, ac yn cydnabod yr ystod lawn o sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu.

## Continwwm Capasiti Sgiliau Cymraeg

Mae'r polisi Caerdydd Ddwyieithog, Cyngor Dwyieithog diwygiedig yn darparu continwwm enghreifftiol ar gyfer capasiti Cymraeg er mwyn cefnogi timau'r Cyngor. Bydd hyn yn caniatáu cymorth wedi ei dargedu i'r timau hynny sydd angen cynyddu nifer eu staff sydd â sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel. Mae'r continwwm yn cynnig meincnodau ar gyfer nifer y swyddi o fewn timau sydd wedi eu hadnabod fel rhai 'Cymraeg hanfodol' a nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg neu sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg. Mae'r meincnodau hyn yn rhoi targedau datblygiadol i dimau i'w helpu i symud ar draws y continwwm tuag at y dynodiad Capasiti Uchel.


| | Capasiti Uchel | | | | Capasiti Isel | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **20%+ Cymraeg Hanfodol** | **Cymraeg** | **10%+ Siaradwyr Cymraeg** | **10%+ Dysgu Cymraeg** | **Capasiti Cymraeg Isel** | **Dim ymwneud â'r cyhoedd** |
| **Disgrifiad manwl** | 20% o swyddi tîm yn cynnwys gofyniad iaith L3 | 20% o unigolion yn y tîm yn gallu siarad Cymraeg L3-L5 | 10% o unigolion yn y tîm yn gallu siarad Cymraeg L3-L5 | 10% o unigolion yn y tîm yn gallu siarad Cymraeg L1-L2 | Llai na 10% mewn swyddi Cymraeg hanfodol neu'n siarad/dysgu'r iaith | Capasiti Cymraeg isel, ond dim ymwneud â'r cyhoedd |

## Cyfieithu

Mae Tîm Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd o ansawdd uchel i Gyngor Caerdydd.

Yn 2025-26, cyfieithodd tîm Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog **16,035,501** o eiriau. Dyma'r cyfanswm cyfieithu blynyddol uchaf i'r tîm.

Roedd hyn yn cynnwys **8,067,202** o eiriau wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Caerdydd a **7,968,299** o eiriau ar gyfer partneriaid allanol.




Darparodd Caerdydd Ddwyieithog wasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer **266** o gyfarfodydd a digwyddiadau.

# **Deilliant 5:** Hyrwyddo

## Mae sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg fel bod pobl yn gallu defnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.

### Addysg

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cefnogi cyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Caerdydd, ac mae'r ddwy strategaeth yn cynnwys deilliannau a chamau gweithredu cyffredin.

Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys targedau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd meithrin a derbyn mewn addysg Gymraeg.

**Lleoedd Meithrin**

Mae data Nifer ar y Gofrestr ar gyfer Hydref 2025 yn dangos bod **626** o ddisgyblion ar y gofrestr mewn lleoedd Meithrin mewn ysgolion cynradd Cymraeg, sef **19.8**% o gyfanswm y niferoedd derbyn ledled y ddinas.

**Lleoedd Derbyn**

Mae data Nifer ar y Gofrestr ar gyfer Hydref 2025 yn dangos bod **674** o ddisgyblion ar y gofrestr mewn lleoedd Derbyn mewn ysgolion cynradd Cymraeg, sef **19.5**% o gyfanswm y niferoedd derbyn ledled y ddinas.

**Ysgol Groes-wen**

Mae'r ffrwd iaith ddeuol yn Ysgol Groes-wen yn cynnwys **24** o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn a **37** o ddisgyblion yn y dosbarth Meithrin. Nid yw'r disgyblion hyn yn cael eu cyfrif yn y setiau data Derbyn a Meithrin Cymraeg oherwydd, pe byddent yn parhau ar y llwybr iaith ddeuol, byddai angen darpariaeth trochi iaith ychwanegol arnynt i ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg i'r lefel sy'n angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i addysg uwchradd Gymraeg.

## Cymraeg i Bawb

Ehangwyd partneriaeth Cymraeg i Bawb, sy’n hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, yn genedlaethol ledled Cymru yn 2025-26 o dan arweiniad Mentrau Iaith Cymru. Mae’r model cenedlaethol yn adeiladu ar lwyddiant partneriaeth De-ddwyrain Cymru, a gadeirir gan Gaerdydd, yn dilyn peilot dwy flynedd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2024-25.

Cynhaliwyd yr ail Gynhadledd Cymraeg i Bawb yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful ar 3 Ebrill 2025. Ymhlith y prif siaradwyr roedd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg.

Parhaodd partneriaeth De-ddwyrain Cymru – sy'n cynnwys Mentrau Iaith y rhanbarth, swyddogion addysg yr awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill – i gyfarfod drwy 2025-26. Penodwyd Swyddog Cyfathrebu a Marchnata ym mis Gorffennaf 2025 i gefnogi cyflawni gwaith y bartneriaeth.

Roedd y prosiectau a gefnogwyd gan Cymraeg i Bawb yn 2025-26 yn cynnwys:

- Pecyn hyrwyddo ar gyfer ysgolion Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru
- Deunyddiau hyrwyddo pwrpasol ar gyfer digwyddiadau cymunedol y Mentrau Iaith
- Ymchwil i ddewisiadau rhieni ynghylch addysg Gymraeg

## Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog

Caerdydd Ddwyieithog yw strategaeth pum mlynedd Cyngor Caerdydd i hyrwyddo'r Gymraeg. Wedi'i mabwysiadu gyntaf yn 2017 a'i diwygio ar gyfer 2022–27, mae'r strategaeth yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn cefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 drwy dair thema graidd: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau i'r iaith ffynnu.

Cyflawnir y strategaeth mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, sy’n cynnwys cynrychiolaeth o blith ysgolion Caerdydd, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, sefydliadau diwylliannol, a phartneriaid Cymraeg fel yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Caerdydd.

Mae’r cyflawniadau allweddol yn 2025-26 yn cynnwys:

- Datblygu cronfa ddata bwrpasol o gyfleoedd Cymraeg ledled Caerdydd
- Cyflwyno’r trydydd digwyddiad Gyrfa Gymraeg
- Cefnogi Tafwyl, gŵyl Gymraeg am ddim Caerdydd.
- Ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg i bobl ifanc Caerdydd drwy'r bartneriaeth CFTI
- Cefnogi darpariaeth feithrin newydd yn Ysgol Coed-y-Gof

Bydd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022–27 yn cael ei hasesu'n annibynnol yn 2026, gydag argymhellion canlyniadol wedi'u hymgorffori yn strategaeth ddiwygiedig 2027–32.

**Adolygu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog**

Bydd strategaeth nesaf Caerdydd Ddwyieithog yn cael ei datblygu ar y cyd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Caerdydd (CSCA) .

Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth, ochr yn ochr â drafft diwygiedig o’r CSCA, yn gynnar yn 2027.

## **Deilliant 6:** Llywodraethiant

**Mae sefydliadau'n gwarchod ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr y Gymraeg drwy fod â llywodraethiant a threfn gwynion effeithiol.**

### Cwynion ac Ymchwiliadau

| Mewnol | Comisiynydd y Gymraeg | | |
|---|---|---|---|
| 3 | 6 | 8 | 7 |
| Cwynion a dderbyniwyd | Ymchwiliadau newydd | Cyfanswm ymchwiliadau | Ymchwiliadau ar agor ar ddiwedd y flwyddyn |

Derbyniwyd **3** cwyn yn 2025-26 ynghylch gwasanaethau Cymraeg a chydymffurfiaeth Cyngor Caerdydd â Safonau'r Gymraeg. Roedd y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â darparu gwasanaethau Cymraeg ar lwyfannau digidol a rhyngwynebau cwsmeriaid. Mae camau wedi'u cymryd i gywiro materion a godwyd gan y cwynion hyn ac mae canllawiau wedi'u darparu i gefnogi dysgu ac i atal ailadrodd.

Roedd **8** ymchwiliad statudol Comisiynydd yr /Iaith Gymraeg i achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. O'r rhain derbyniwyd **6** yn 2025-26 ac roedd **2** yn parhau o'r flwyddyn flaenorol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd **7** ymchwiliad yn parhau i fod ar y gweill, gyda'r holl ohebiaeth rhwng y Comisiynydd ac adrannau perthnasol y Cyngor yn cael ei rheoli yn unol â gofynion statudol.

Tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog yw prif gyswllt y Cyngor ar gyfer y Comisiynydd, gan gydlynu ymatebion gyda'r Cyfarwyddiaethau priodol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff materion eu huwchgyfeirio at uwch swyddogion, megis pan fydd penderfyniad yn cael ei herio neu pan fydd goblygiadau sefydliadol neu ariannol sylweddol yn codi. Mae cyfathrebu parhaus gydol pob ymchwiliad yn cefnogi adnabod a datrys unrhyw broblemau yn gynnar.

## Cyngor Polisi

**Tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog**
Mae'r tîm yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried materion polisi Cymraeg, gan gynnwys datblygu ac adolygu polisi, asesiadau effaith ar y Gymraeg, ymchwiliadau statudol, a chwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau Cymraeg.

## Llywodraethiant

**Uwch Dîm Rheoli (UDRh)**
Mae’r UDRh yn trafod materion Cymraeg yn rheolaidd er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol a sicrhau cydymffurfiaeth.

**Cydlynwyr a Phencampwyr y Gymraeg**
Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal rhwydwaith o Gydlynwyr a Phencampwyr y Gymraeg. Mae gan bob gwasanaeth Gydlynydd sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg a rhaeadru gwybodaeth i gydweithwyr, gyda chefnogaeth Pencampwyr y Gymraeg ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch.

Mae'r Cydlynwyr yn cyfarfod yn fisol i drafod materion polisi a nodi heriau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

**Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog**
Mae Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog yn fforwm trawsbleidiol o gynghorwyr sy'n hyrwyddo gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Caerdydd Ddwyieithog ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter.